Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penbre
# Heol Ashburnham
# Penbre
# Sir Gaerfyrddin
# SA16 0TP

# Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penbre

Mae Ysgol Gynradd Penbre wedi'i lleoli ym mhentref Penbre, tua phum milltir o Lanelli.

Ar hyn o bryd, mae 232 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae naw dosbarth yn yr ysgol, gan gynnwys un dosbarth oed cymysg, a dosbarth meithrin sydd â 18 disgybl amser llawn ac wyth disgybl rhan-amser. Ar gyfartaledd tair blynedd dreigl, mae 25% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 33% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig bach iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw ychydig bach iawn o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg mamiaith.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn 2010. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae holl fywyd a gwaith yr ysgol yn seiliedig ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, gwella lles disgyblion, creu amgylchedd ar gyfer dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn a pharatoi'r holl ddisgyblion â medrau ar gyfer bywyd. Mae'r egwyddorion hyn yn treiddio i bob gweithgaredd. Caiff disgyblion lais amlwg yng ngwaith yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd nodedig ac mae'n annog disgyblion i ddatblygu agweddau rhagorol tuag at ddysgu. Mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu yn uchel ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Mae pennaeth hyderus yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae wedi datblygu tîm o staff cefnogol iawn, sy'n gweithio'n galed. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnig addysg o ansawdd rhagorol, gyda chryfderau nodedig, ac mae'n sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion o gwmpas yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith ar ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd eithriadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau, o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion a disgyblion eraill a dilynant gyfarwyddiadau yn ofalus. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn bwrpasol â'i gilydd yn ystod gweithgareddau ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin yn disgrifio sut mae ciwbiau rhew yn teimlo yn eu dwylo ac mae disgyblion Blwyddyn 2 yn siarad â'i gilydd yn bwrpasol tra'n perfformio yn ardal chwarae rôl y 'stiwdio'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos parch tuag at eu syniadau ei gilydd yn ystod trafodaethau am helpu ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio geirfa fywiog ac aeddfed wrth ystyried p'un a ddylid caniatáu i ddisgyblion ddod â ffôn symudol i'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau ffoneg cadarn i ddadgodio geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau darllen yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dethol gwybodaeth berthnasol trwy sgimio a sganio, er enghraifft wrth ddefnyddio peiriannau chwilio ar-lein i ymchwilio i nadroedd sy'n lladd. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos brwdfrydedd tuag at ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda ac yn ysgrifennu'n hyderus at amrywiaeth eang o ddibenion. Mae ansawdd eu hysgrifennu estynedig yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau yn gywir, yn cyflwyno'u gwaith yn daclus gyda llawysgrifen ddarllenadwy ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir wrth ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio geirfa aeddfed yn eu hysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio paragraffau ac atalnodi yn gywir. Dangosant ddealltwriaeth glir o arddulliau ysgrifennu a chynulleidfaoedd gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur dychmygus plentyn o oes Fictoria neu gyflwyno ffeithiau gwyddonol am briodweddau deunyddiau mewn erthygl papur newydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn hyblyg mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon mewn meysydd dysgu a phynciau eraill. Mae disgyblion meithrin yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda i ddatrys problemau bywyd go iawn, er enghraifft wrth drefnu cnau a mes o'r ardal awyr agored yn nhrefn eu maint.

Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu graff i ddangos pryd mae disgyblion yn eu dosbarth yn dathlu eu pen-blwydd. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dewis dulliau cyfrifo priodol wrth ddadansoddi amserlenni er mwyn cynllunio taith i barc thema, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio strategaethau cyfrifo ffurfiol yn gywir. Mae disgyblion hŷn yn trafod data yn fedrus i lunio a dadansoddi setiau data sy'n deillio o arbrofion gwyddonol. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau TGCh effeithiol, gan ddefnyddio technolegau bwrdd gwaith a symudol yn hyderus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn ychwanegu cefndir at eu bwletin newyddion yn annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn creu cyfarwyddiadau i wneud i roced symud o gwmpas yn y gofod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio codio yn hyderus i symud gwrthrychau o amgylch y sgrin. Maent yn datblygu'u medrau amlgyfryngau a phrosesu geiriau yn gynyddol i safon uchel er mwyn cyflwyno a chynhyrchu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio taenlenni yn hyderus i gyfrifo cost gwerthu ffrwythau fel rhan o brosiect entrepreneuraidd. Maent wedi creu animeiddiad i amlygu peryglon y rhyngrwyd. Mae'r holl ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth glir iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg sylfaenol. Maent yn darllen testunau syml ar goedd ac yn defnyddio geirfa addas, er enghraifft wrth drafod y tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml yn briodol ac yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth gyfyngedig yn unig o eiriau ac ymadroddion ac nid oes ganddynt hyder i gymryd rhan mewn sgyrsiau Cymraeg y tu allan i sesiynau ffurfiol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae safonau lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn wych. Mae bron pob un o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd niferus i fynegi'u barn am agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Enghraifft ragorol o hyn yw eu cyfraniad at ddatblygiad ardal yr ysgol goedwig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu at eu lles eu hunain a lles eu cymheiriaid yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae bydis y maes chwarae yn treulio amser gwerthfawr gyda'r disgyblion iau i ddatblygu cyfeillgarwch diffuant. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar hapusrwydd a diogelwch disgyblion y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnodau hyn. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall un o reolau aur yr ysgol ar gyfer ymddygiad – 'bod yn garedig ac yn gymwynasgar i bobl'. Maent yn gofalu am ei gilydd yn eithriadol o dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos aeddfedrwydd rhagorol wrth ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel dod yn aelodau o'r cyngor ysgol, ymgymryd â rôl capteiniaid tŷ a chyfrannu at y pwyllgor masnach deg. Mae cynrychiolwyr ar y grŵp Disgyblion sy'n Asesu Dysgu yn yr Ysgol yn dangos ymrwymiad a brwdfrydedd mawr ynghylch arfarnu agweddau penodol ar yr ysgol. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus trwy iMovie a wnaed ganddynt eu hunain ac maent yn nodi'r adnoddau y mae arnynt eu hangen yn y clwb gwyddoniaeth.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau'n dda iawn â'u tasgau. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol gyda'u cymheiriaid ac yn parchu barn pobl eraill. Mae pob un ohonynt yn dangos gwydnwch rhagorol pan fyddant yn wynebu heriau yn eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn goresgyn rhwystrau yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n fedrus fel dysgwyr annibynnol ac maent yn gwneud penderfyniadau pwysig am eu dysgu yn ystod sesiynau llais y disgybl: 'Pawb yn cynllunio yn y dosbarth' (Everyone Planning in Class – EPIC). Mae'r holl ddisgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at greu amrywiaeth o heriau medrau, sy'n rhoi lefelau uchel o annibyniaeth iddynt. Mae enghreifftiau da iawn o'r heriau hyn yn cynnwys dylunio gêm gyfrifiadurol gydag ysglyfaethwr sy'n symud a chreu posteri diogelwch ar gyfer reid gyflym iawn mewn parc pleser. Mae'r lefel uchel hon o annibyniaeth yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r angen i fwyta'n iach a chymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan ym menter y 'filltir ddyddiol' o amgylch tir yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol o safon uchel yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon ifanc yn cynnal 'clwb hwyl a sbri' llwyddiannus, sef clwb ffitrwydd i ddisgyblion iau, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus iawn at ddatblygu eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn eithriadol o gwrtais, yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac yn eu trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch a goddefgarwch. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd ac yn dilyn siarteri cytunedig y dosbarth a gwerthoedd yr ysgol yn gyson. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd yn gyson o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon yn y bore.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Trwy nifer o weithgareddau codi arian, maent yn datblygu dealltwriaeth eithriadol o anghenion pobl eraill ac maent wedi codi arian i osod toiledau a phrynu offer i ystafell ddosbarth mewn ysgol yn Lesotho, De Affrica.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r ffordd naturiol mae staff yn cynnig cwricwlwm hynod greadigol, cytbwys a chyfoethog sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae wedi seilio ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol sy'n hoelio sylw disgyblion yn effeithiol iawn ac yn datblygu'u medrau a'u chwilfrydedd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith ac yn meithrin datblygiad medrau bywyd go iawn. Enghreifftiau nodedig o hyn yw prosiectau awyr agored ysgogol iawn, fel mesur priodweddau thermol gwahanol ddeunyddiau, neu bobi bara cartref ar dân agored. Mae disgyblion yn datblygu medrau annibynnol trwy weithgareddau meithrin tîm, a gweithgareddau ymarferol a chreadigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn meithrin annibyniaeth disgyblion ac yn datblygu'u medrau yn effeithiol trwy gynnig profiadau ysgogol a chyffrous iddynt. Enghraifft dda o hyn yw'r efelychiad diweddar o long ofod yn glanio yn yr ardal awyr agored. Mae

hyn wedi dal dychymyg y disgyblion iau ac wedi datblygu'u medrau llafaredd mynegol yn dda. Mae gan staff y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth helaeth o egwyddorion y cyfnod dysgu hwn ac maent yn symbylu disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r cwricwlwm yn llwyddiannus i sicrhau parhad wrth ddatblygu dysgwyr annibynnol ledled yr ysgol. Mae datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn ganolog i'r trefniadau newydd. Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd i ddisgyblion ymweld â mannau lleol o ddiddordeb sy'n ysgogi'u diddordeb, er enghraifft ymweld â'r ganolfan sgïo leol er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o rymoedd. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer integreiddio'r fframwaith cymhwysedd digidol i'r cwricwlwm ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus mewn TGCh, mewn amgylchedd sy'n gyfoethog yn ddigidol.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu'u medrau iaith Gymraeg mewn gwersi dynodedig yn effeithiol. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol o gwmpas yr ysgol, ond nifer bach iawn yn unig sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i sesiynau ffurfiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd niferus i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu a phrofiadau dysgu diddorol i ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus.

Nodweddion gorau'r addysgu, sydd i'w gweld yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, yw'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng disgyblion a'r holl staff. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau'n dda wrth ymateb i gwestiynau fel 'pam mae pengwiniaid yn tyrru at ei gilydd?', ac mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn creu ac yn recordio bwletin tywydd yn eu hystafell newyddion y BBC. Mae cyflwyniadau athrawon yn fywiog ac yn annog yr holl ddisgyblion i gyflawni cystal ag y gallant. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau da o ran iaith ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i wella medrau llafar disgyblion. Mae'r holl athrawon yn rhannu amcanion clir gyda disgyblion. Rhoddant gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ystyried eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i wella'u gwaith.

Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau asesu yn fedrus i gefnogi disgyblion. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol ac adborth ysgrifenedig gwerthfawr sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau disgyblion. Trwy gyfleoedd rheolaidd yn ystod 'dydd Llun gwneud eich marc', mae disgyblion yn dechrau gwella'u gwaith eu hunain yn hyderus. Mae athrawon yn asesu cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn gywir ac yn dadansoddi deilliannau yn effeithiol i lywio'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae systemau rhagorol ar waith gan yr ysgol i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r holl staff yn defnyddio'r systemau yn effeithiol iawn i amlygu

anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn nodi anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn gynnar ac yn rhoi rhaglenni ymyrraeth effeithiol iddynt. Mae athrawon yn gwneud defnydd rhagorol o ddeilliannau asesu ar draws pob maes dysgu, er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n ddiwyd mewn partneriaeth â'r athrawon a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth perthnasol sydd o safon uchel iawn. Mae'r ysgol yn defnyddio ymyriadau yn ddychmygus, yn enwedig y bartneriaeth â'r cynllun cŵn dysgu lleol. Mae'r ymweliadau wythnosol gan 'Cariad', y ci, wedi gwella safonau llythrennedd, presenoldeb a lles disgyblion agored i niwed yn sylweddol. Mae gan bob un o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun manwl iawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n amlinellu targedau cyflawnadwy, clir, ar gyfer gwella. Cryfder arbennig yng ngwaith yr ysgol yw'r cymorth pwrpasol, o ansawdd uchel, y mae pob disgybl yn ei gael i ddatblygu'i fedrau sylfaenol a'i les emosiynol. Mae systemau cynhwysfawr ar waith i fonitro'u cynlluniau personol, trwy ymgynghori â'r disgyblion a'u rhieni.

Mae gan yr ysgol strategaethau penodol sy'n llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol iawn, er enghraifft trwy ddefnyddio deunyddiau adeiladu a phrosiectau siarad. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n fawr o ddefnydd yr ysgol o adnodd tracio emosiynol dyddiol a blwch 'llais y disgybl' yn y dosbarth. Mae'r ysgol yn ymyrryd yn gyflym lle bo'r angen ac mae'n rhoi cymorth emosiynol effeithiol i ddisgyblion. Caiff partneriaethau â rhieni effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y rhan fwyaf o ddisgyblion trwy'r sesiynau 'Cyngor, Cymorth a Help Misol' mae'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn eu cynnal.

Mae gan yr ysgol gynlluniau cynhwysfawr i ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ei disgyblion, sy'n meithrin agweddau fel gofal a chydraddoldeb ac sy'n hybu nodau'r ysgol yn effeithiol iawn. Mae athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol cyffrous, gan gynnwys ymweliad â Llundain, ac maent yn gwahodd ymwelwyr diddorol i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd, ac agweddau cymdeithasol eang ac amrywiol.

Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i fwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini trwy gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol iddynt. Er enghraifft, mae pob disgybl yn dysgu am fanteision bod yn yr awyr agored trwy arddio yn y twnnel polythen a thrwy weithgareddau'r ysgol goedwig. Mae'r amrywiaeth helaeth o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion o bob oed yn nodwedd nodedig o'r ysgol, ac maent yn helpu disgyblion i ddarganfod eu doniau, er enghraifft mewn rygbi, pêl-rwyd, criced a rhedeg traws gwlad.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae staff yn trefnu digon o gyfleoedd iddynt fyfyrio yn ystod sesiynau addoli ar y cyd, sy'n aml wedi'u seilio ar storïau o'r Beibl neu themâu fel tegwch a maddeuant. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol a moesol, a digwyddiadau sy'n digwydd yn y byd ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd effeithiol iawn i hybu medrau cymdeithasol a moesol disgyblion gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys grŵp masnach deg y

disgyblion a phwyllgor y 'Disgyblion sy'n Asesu Dysgu yn yr Ysgol'. Caiff y rhain effaith gadarnhaol iawn ar allu disgyblion i gydweithio a pharchu eu safbwyntiau ei gilydd mewn amgylchedd cynhwysol a gofalgar.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dod yn ddinasyddion gweithgar trwy gymryd rhan mewn grwpiau dylanwadol, fel yr arweinwyr digidol. Elfen nodedig yw gwaith y cyngor ysgol, sy'n datblygu medrau arwain disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar waith yr ysgol, fel newidiadau i bolisi'r ysgol ar fwlio. Caiff disgyblion eraill gyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut, trwy gyfrannu at gynlluniau cwricwlwm yr athrawon a thrwy greu eu heriau eu hunain yn gysylltiedig â'u testunau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau creadigol disgyblion trwy Brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a datblygu'u medrau entrepreneuraidd trwy dyfu a gwerthu llysiau yn nodweddion cryf o'r ysgol. Mae cyfleoedd eang i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a'r tu hwnt, ac i weithio ochr yn ochr ag artistiaid a cherddorion a chystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd. Mae'r profiadau hyn yn datblygu hunanhyder disgyblion, eu balchder ynddynt eu hunain a'u gallu i weithio gydag eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hyderus ac yn hybu gweledigaeth glir o gymuned gynhwysol, gyfeillgar, lle mae disgyblion yn anelu at wneud eu gorau a chyflawni'n dda iawn. Mae'r dirprwy bennaeth ac aelodau'r uwch dîm arwain yn ei chefnogi'n llwyddiannus. Maent yn cynnig cyfeiriad clir, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob maes dysgu ac addysgu, ac yn sicrhau ymrwymiad y staff i gynnal a chodi safonau. Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad o ddiben ac ymrwymiad ymhlith pawb i'r gwerthoedd a'r uchelgeisiau hyn.

Mae cyfarfodydd ffocysedig staff yn rhoi cyfleoedd da i'r holl staff arfarnu cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella. Mae camau gweithredu yn y cynllun gwella presennol yn gwella meysydd a amlygwyd yn gyflym ac yn effeithiol, er enghraifft ansawdd yr ysgrifennu estynedig yn y cyfnod sylfaen. Mae'r holl aelodau staff yn gyfrifol am agwedd benodol ar waith yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at wella cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion. Mae staff cymorth hynod effeithiol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n dda at wella safonau, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae arweinyddiaeth hynod effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae ganddi foeseg gyson o adnabod cymhwysedd a chryfderau athrawon unigol ac, o ganlyniad, mae'n neilltuo cyfrifoldebau yn effeithiol iawn. Mae'r holl aelodau staff yn elwa o gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol a dyheadau personol. Enghraifft dda iawn o'r arfer hon yw cyfraniad y staff sy'n arwain ar ddatblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2 a'r cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r uwch dîm arwain wedi creu cymuned ddysgu

gadarn sy'n seiliedig ar waith tîm cryf, parhaus. Mae athrawon yn elwa'n sylweddol o arsylwadau effeithiol fesul triawd a defnyddio arbenigedd cydweithwyr i wella medrau unigol a safonau gwaith disgyblion. Maent yn addasu'u harferion yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad, sydd o fudd llwyddiannus i ddatblygiad proffesiynol y staff ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mae trefniadau cynhwysfawr i arfarnu gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn seilio'u canfyddiadau ar weithdrefnau monitro trylwyr. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn amlygu'r nodweddion da a'r meysydd i'w gwella yn fanwl ac yn gywir. O ganlyniad i arfarniadau gofalus a thrafodaethau gyda'r awdurdod lleol, mae'r ysgol wedi sefydlu darpariaeth Dechrau'n Deg yn ddiweddar i helpu'r plant ieuengaf i ddod i arfer â'r ysgol yn gyflym a chynnig cymorth yn gynnar.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun gwella wedi'u seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar gynnydd disgyblion ac sy'n canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a chodi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r targed i herio'r disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adroddiadau trylwyr a rheolaidd yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r staff. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella bob blwyddyn.

Mae gan lywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad a gwaith presennol yr ysgol, a dealltwriaeth drylwyr ohonynt. Maent yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd trwy gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a chânt gyflwyniadau gwerthfawr gan aelodau staff. Maent yn gefnogol iawn o waith yr ysgol ac yn cydweithredu'n agos ac yn effeithiol gydag arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Mae trafodaethau trylwyr ar y cwricwlwm ac ymweliadau rheolaidd â'r ysgol yn caniatáu iddynt herio arweinwyr yn llwyddiannus i godi safonau a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae'r ysgol yn neilltuo adnoddau'n helaeth i gyfoethogi'r cwricwlwm a bodloni anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ofalus i godi safonau disgyblion sy'n gymwys i'w gael, trwy weithgareddau arloesol. Mae arweinwyr yn rheoli ac yn monitro gwariant a chyllid yn ddarbodus i sicrhau'r defnydd gorau ar gyllid ac i gynnal a gwella safonau.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2018